

Pecyn cymorth ar gyfer cyrff cyhoeddus

'Arwain y Ffordd' tuag at Gymru Gynaliadwy



Byddwch y Newid



Be the Change



Sustainability Improvements for Teams

Cyflwyniad**Nodau Datblygu
Cynaliadwy Byd-eang****Nodau Llesiant Cymru****‘Byddwch y Newid’ ar gyfer
nodau llesiant Cymru****Adnoddau ‘Byddwch
y Newid’****Her Nodau Llesiant Cymru****Gwelliannau Cynaliadwy
ar gyfer Timau (SIFT)****Y gynulleidfa darged****Negeseuon allweddol****Gwybodaeth am ddylunio
a defnyddio adnoddau****Strwythur e-ganllaw****Camau Cynaliadwy****Cynlluniau i'r dyfodol****Rhagor o wybodaeth**

Cyflwyniad

Mae Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu pecyn i gynorthwyo cyrff cyhoeddus a'u staff i ymateb i'n deddfwriaeth datblygu cynaliadwy sy'n torri tir newydd; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar sail canfyddiadau Arolwg o Lenyddiaeth ynghylch y ffordd orau o sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn bwrw gwreiddiau ar nifer o lefelau, rydym wedi llunio pecyn cymorth i wneud y mwyaf o'n gweithlu oherwydd eu bod mewn sefyllfa unigryw i'n cynorthwyo i fod yn genedl fwy cynaliadwy. Mae'r pecyn cymorth yn anelu at ddarparu gwybodaeth, ond mae hefyd yn cefnogi staff i fod yn gyfryngwyr newid drwy eu cynorthwyo i wneud newidiadau bach ar lefel unigol, neu drwy gydweithio fel timau i roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith.

Drwy gymryd camau cynaliadwy bach gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth ar y cyd, nid yn unig ar gyfer nodau llesiant Cymru ond hefyd y nodau byd-eang.



Cyflwyniad

Nodau Datblygu
Cynaliadwy Byd-eang

Nodau Llesiant Cymru

'Byddwch y Newid' ar gyfer
nodau Llesiant CymruAdnoddau 'Byddwch
y Newid'

Her Nodau Llesiant Cymru

Gwelliannau Cynaliadwy
ar gyfer Timau (SIFT)

Y gynulleidfa darged

Negeseuon allweddol

Gwybodaeth am ddylunio
a defnyddio adnoddau

Strwythur e-ganllaw

Camau Cynaliadwy

Cynlluniau i'r dyfodol

Rhagor o wybodaeth

Nodau Datblygu Cynaliadwy Byd-eang

Yn 2015, mabwysiadodd Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig 'Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy', a gyflwynodd 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy - dyma alwad frys i weithredu gan yr holl wledydd yn y bartneriaeth fyd-eang. Mae'r nodau'n cydnabod bod yn rhaid i drechu tlodi a mathau eraill o amddifadedd fynd law yn llaw â strategaethau sy'n gwella iechyd ac addysg, sy'n lleihau anghydraddoldeb ac yn sbarduno twf economaidd, yn ogystal â mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gweithio er mwyn gwarchod ein moroedd a'n fforestydd. Gallwch ddarllen am y nodau byd-eang [yma](https://yma.gov.uk).



Cyflwyniad

Nodau Datblygu
Cynaliadwy Byd-eang**Nodau Llesiant Cymru**'Byddwch y Newid' ar gyfer
nodau Llesiant CymruAdnoddau 'Byddwch
y Newid'

Her Nodau Llesiant Cymru

Gwelliannau Cynaliadwy
ar gyfer Timau (SIFT)

Y gynulleidfa darged

Negeseuon allweddol

Gwybodaeth am ddylunio
a defnyddio adnoddau

Strwythur e-ganllaw

Camau Cynaliadwy

Cynlluniau i'r dyfodol

Rhagor o wybodaeth

Nodau Llesiant Cymru


Yn yr un flwyddyn, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Byd i gyflwyno deddfwriaeth - Deddf Lleisiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - i ddatblygu ymateb Cymreig i weithredu'r 'nodau byd-eang'. Mae'r Ddeddf wedi arwain at droi'r 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy yn 7 nod Llesiant i Gymru, Er mwyn adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog Cymru, cyflwynodd Deddf Cymru hefyd 'lesiant diwylliannol' fel pedwaredd colofn datblygu cynaliadwy, ochr yn ochr â'r tri dimensiwn traddodiadol o lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae'n rhaid i 44 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys lechyd Cyhoeddus Cymru, gyfrannu tuag at gyflawni holl nodau Llesiant Cymru, drwy:

- benderfyniadau sy'n diogelu'r dyfodol
- gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd
- helpu i fynd i'r afael â phroblemau fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru.

Gallwch ddarllen am nodau Llesiant Cymru [yma](#).

Mae gan gyrff cyhoeddus, ynghyd ag amrywiaeth ehangach o sefydliadau cyhoeddus, 'Ddyletswydd Bioamrywiaeth' hefyd yn Neddf Amgylchedd (Cymru) 2016 i gyfrannu at amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau sy'n gweithredu mewn ffordd iach, sy'n cefnogi'r nod Llesiant 'Cymru gydnerth'.



Cyflwyniad

Nodau Datblygu
Cynaliadwy Byd-eang

Nodau Llesiant Cymru

**'Byddwch y Newid' ar gyfer
nodau Llesiant Cymru**Adnoddau 'Byddwch
y Newid'

Her Nodau Llesiant Cymru

Gwelliannau Cynaliadwy
ar gyfer Timau (SIFT)

Y gynulleidfa darged

Negeseuon allweddol

Gwybodaeth am ddylunio
a defnyddio adnoddau

Strwythur e-ganllaw

Camau Cynaliadwy

Cynlluniau i'r dyfodol

Rhagor o wybodaeth

'Byddwch y Newid' ar gyfer nodau Llesiant Cymru

Mae 'Byddwch y Newid' yn symudiad/ymgyrch a ddatblygwyd i annog a chefnogi staff i gymryd camau cynaliadwy yn y gweithle ac i wneud eu cyfraniad unigol tuag at nodau Llesiant Cymru. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar newid ymddygiad ar lefel unigolion.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn ganllaw i helpu cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill i ymateb i [nodau Llesiant Cymru](#), a'r uchelgais fyd-eang ehangach o gyfrannu at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.



Cyflwyniad

Nodau Datblygu
Cynaliadwy Byd-eang

Nodau Llesiant Cymru

'Byddwch y Newid' ar gyfer
nodau Llesiant CymruAdnoddau 'Byddwch
y Newid'

Her Nodau Llesiant Cymru

Gwelliannau Cynaliadwy
ar gyfer Timau (SIFT)

Y gynulleidfa darged

Negeseuon allweddol

Gwybodaeth am ddylunio
a defnyddio adnoddau

Strwythur e-ganllaw

Camau Cynaliadwy

Cynlluniau i'r dyfodol

Rhagor o wybodaeth

Adnoddau 'Byddwch y Newid'

Rydym yn datblygu amrywiaeth o e-ganllawiau, e-bosteri a dyddiau 'Gweithredu' ar amrywiaeth o themâu i gynorthwyo cydweithwyr i gymryd camau cynaliadwy yn eu bywydau gwaith. Mae'r adnoddau hyn yn cynorthwyo i ddod â'r nodau Llesiant 'yn fyw' ac maent yn cynnig dewis o gamau y gellir eu cymryd gan yr holl staff. I ychwanegu dyfnder, mae'r camau cynaliadwyedd hefyd yn cysylltu â lle y gall staff ganfod polisïau a gwasanaethau cymorth eu sefydliadau. Mae'r dyddiau 'gweithredu' yn rhoi cyfleoedd unigryw i staff fodelu ymddygiad penodol a rhoi geiriau ar waith.

Mae'r themâu yn cefnogi'r pedair 'colofn' ar gyfer datblygu cynaliadwy: Llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, ac maent yn cynnwys amrywiaeth o faterion sydd o bwys yng Nghymru ac yn fyd-eang. Y cynnyrch sydd ar gael ar hyn o bryd yw:

e-ganllawiau

- 'Cerddwn ymlaen' – teithio llesol a chynaliadwy
- 'Mesurau i leihau ein gwastraff' – lleihau'r defnydd o ynni a gwastraff
- 'Creu gweithleoedd cynhwysol' – cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant
- 'Cynaliadwyedd ar yr agenda' – cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau cynaliadwy
- 'Treftadaeth iach' – rhoi bywiogrwydd i iechyd a Llesiant drwy'r celfyddydau, diwylliant a'r iaith Gymraeg
- 'Cerdyn cymell' ar y pum ffordd gynaliadwy o weithio

e-bosteri

- Caffael te a choffi Masnach Deg
- Yfed o gwpanau coffi y gellir eu hailddefnyddio
- 'Hanfodion' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Lleihau/Cael gwared ar eitemau plastig yn y gweithle

Dyddiau 'Gweithredu'

- Ymweliadau Rhyng-ffydd
- Sesiynau cyflwyno iaith Arwyddion Prydain
- Codi ysbwriel yn ystod amser cinio



Cyflwyniad

Nodau Datblygu
Cynaliadwy Byd-eang

Nodau Llesiant Cymru

'Byddwch y Newid' ar gyfer
nodau Llesiant CymruAdnoddau 'Byddwch
y Newid'**Her Nodau Llesiant Cymru**Gwelliannau Cynaliadwy
ar gyfer Timau (SIFT)

Y gynulleidfa darged

Negeseuon allweddol

Gwybodaeth am ddylunio
a defnyddio adnoddau

Strwythur e-ganllaw

Camau Cynaliadwy

Cynlluniau i'r dyfodol

Rhagor o wybodaeth

Her Nodau Llesiant Cymru

Rydym hefyd wedi creu'r 'Her Nodau Llesiant', sy'n herio staff i saith niwrnod o fodelu ymddygiad cynaliadwy, o'r ddewislen hon:

- deiet sy'n seiliedig ar blanhigion neu lysiau
- cynhyrchu dim gwastraff (neu leihau gwastraff)
- teithio gwyrdd
- defnyddio deunydd Masnach Deg / moesol

Mae'r heriau yn anelu at gael y staff i ymgysylltu â'r Ddeddf drwy annog cyfranogiad gweithredol a sefydlu cysylltiad clir rhwng camau gweithredu a chanlyniadau, (e.e. deiet sy'n seiliedig ar blanhigion = ôl-troed carbon llai, sy'n cysylltu â'r nodau Llesiant Cymru gydnerth, lewyrchus sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang), gan godi ymwybyddiaeth hefyd ynghylch materion amgylcheddol byd-eang gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a llygredd plastig. Gan fod yr heriau hyn ar lefel unigolion (neu lefel tîm) yn cwmpasu saith niwrnod, maent hefyd yn cynnwys ymddygiad cynaliadwy y tu allan i'r gweithle. Mae'r heriau yn hyblyg i alluogi'r ymgysylltiad mwyaf posibl gan unigolion/timau, ac anogir creadigrwydd yn eu cynnwys.



Cyflwyniad

Nodau Datblygu
Cynaliadwy Byd-eang

Nodau Llesiant Cymru

'Byddwch y Newid' ar gyfer
nodau Llesiant CymruAdnoddau 'Byddwch
y Newid'

Her Nodau Llesiant Cymru

**Gwelliannau Cynaliadwy
ar gyfer Timau (SIFT)**

Y gynulleidfa darged

Negeseuon allweddol

Gwybodaeth am ddylunio
a defnyddio adnoddau

Strwythur e-ganllaw

Camau Cynaliadwy

Cynlluniau i'r dyfodol

Rhagor o wybodaeth

Gwelliannau Cynaliadwy ar gyfer Timau (SIFT)

Mae timau yn hanfodol ar gyfer galluogi dull mwy cynaliadwy o weithio. Gweithdy cyfranogol am gyfnod o ddwy awr yw SIFT a ddyluniwyd i gefnogi, galluogi a grymuso timau i wneud gwelliannau cynaliadwyedd drwy ddysgu mwy ynghylch y pum ffordd o weithio (yr egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth Gymreig), a chanolbwyntio ar sut y gallent ailddylunio eu gwasanaethau, prosesau a chynlluniau.

Adnodd 'gweithdy SIFT'

Mae'r gweithdy wedi'i strwythuro mewn ffordd lle mae timau'n cael cyfle i adolygu lle mae'r profiad neu'r arbenigedd presennol, lle y gellir gwella hyn a'u rhannu ag eraill, a lle y gellir eu defnyddio ymhellach i wneud gwelliannau ar unwaith ac mewn ffyrdd ymarferol. Erbyn diwedd y sesiwn, mae'r tîm yn cytuno ar gyflawni syniad gwella, yn adolygu'r canlyniadau, yn rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd; p'un a ydynt yn ymwneud â llwyddiannau, rhwystrau neu fethiannau. Bwriedir i'r broses o rannu arbrofion ddatblygu rhwydwaith cydweithredol o ddysgu a gwella ar draws a rhwng sefydliadau gan ddefnyddio'r dull SIFT.

Mae SIFT yn seiliedig ar y gred bod y staff mewn timau mewn sefyllfa dda i weithredu a chefnogi newidiadau gan ddefnyddio eu profiad perthnasol, eu creadigrwydd a'u syniadau, yn ogystal â dysgu rhwng cyfoedion i ysbrydoli ac ysgogi gwelliannau radical. Dyluniwyd SIFT fel bod modd dychwelyd ato sawl gwaith i feithrin hyder o ran ymwreiddio'r pum ffordd o weithio, hysbysu gweithgareddau cynllunio ar sail reolaidd, a chefnogi'r cynnydd o ran cyflawni nodau Llesiant Cymru.



SIFT
Sustainability Improvements for Teams

Cyflwyniad

Nodau Datblygu
Cynaliadwy Byd-eang

Nodau Llesiant Cymru

'Byddwch y Newid' ar gyfer
nodau Llesiant CymruAdnoddau 'Byddwch
y Newid'

Her Nodau Llesiant Cymru

Gwelliannau Cynaliadwy
ar gyfer Timau (SIFT)**Y gynulleidfa darged**

Negeseuon allweddol

Gwybodaeth am ddylunio
a defnyddio adnoddau

Strwythur e-ganllaw

Camau Cynaliadwy

Cynlluniau i'r dyfodol

Rhagor o wybodaeth

Y gynulleidfa darged

Mae ein gwaith cynnar wedi cael ei dargedu tuag at weithlu lechyd Cyhoeddus Cymru, gyda pheth diddordeb gan gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae gan 'Byddwch y Newid' a 'SIFT' y potensial i gael eu teilwra i gefnogi ymatebion sefydliadau hefyd i'r nodau byd-eang, ochr yn ochr â chyflwyno camau cynaliadwy y gallwn ni (a dinasyddion) eu cymryd yn ein bywydau dyddiol y tu allan i'r gweithle.



Cyflwyniad

Nodau Datblygu
Cynaliadwy Byd-eang

Nodau Llesiant Cymru

'Byddwch y Newid' ar gyfer
nodau Llesiant CymruAdnoddau 'Byddwch
y Newid'

Her Nodau Llesiant Cymru

Gwelliannau Cynaliadwy
ar gyfer Timau (SIFT)

Y gynulleidfa darged

Negeseuon allweddolGwybodaeth am ddylunio
a defnyddio adnoddau

Strwythur e-ganllaw

Camau Cynaliadwy

Cynlluniau i'r dyfodol

Rhagor o wybodaeth

Negeseuon allweddol

Datblygwyd yr adnoddau i ysgogi ac ysbrydoli newid ar lefelau unigolion a thimau gyda'r negeseuon allweddol yn cynnwys:

- 'Byddwch y Newid' ar gyfer nodau Llesiant Cymru
- Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory
- Gweithio mewn ffordd Gymreig (y pum ffordd gynaliadwy o weithio)
- Gweithredu ar y cyd ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol
- Mae pob cam cynaliadwy, waeth pa mor fach, yn gwneud gwahaniaeth
- Mae camau cynaliadwy bach yn ffordd hawdd ac effeithiol o gyfrannu at y nodau byd-eang
- O'u cymryd gyda'i gilydd, bydd camau cynaliadwy bychan yn arwain at newidiadau mawr



Cyflwyniad

Nodau Datblygu
Cynaliadwy Byd-eang

Nodau Llesiant Cymru

'Byddwch y Newid' ar gyfer
nodau Llesiant CymruAdnoddau 'Byddwch
y Newid'

Her Nodau Llesiant Cymru

Gwelliannau Cynaliadwy
ar gyfer Timau (SIFT)

Y gynulleidfa darged

Negeseuon allweddol

Gwybodaeth am ddylunio
a defnyddio adnoddau

Strwythur e-ganllaw

Camau Cynaliadwy

Cynlluniau i'r dyfodol

Rhagor o wybodaeth

Gwybodaeth am ddylunio a defnyddio adnoddau

Dyluniwyd eicon 'Byddwch y Newid' ar gyfer nodau Llesiant Cymru gan lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae eicon enghreifftiol hefyd wedi'i lunio ar gyfer cefnogi nodau byd-eang 'Byddwch y Newid'. Datblygwyd y gweithdy SIFT ar y cyd â Phrifysgol Kingston a'r International Futures Forum, ac fe'i dyluniwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gwaith celf ar gael ar gyfer sefydliadau sy'n cymryd rhan.

I feithrin cysylltiad â 'Byddwch y Newid', argymhellir bod gwaith graffeg yn cynnwys yr olwyn 'jig-so' o nodau Llesiant. Mae darnau'r 'jig-so' hefyd ar gael ar wahân i ddangos cyfraniadau camau cynaliadwy tuag at nodau penodol. Awgrymir hefyd fod ffotograffau lleol/cenedlaethol yn cael eu defnyddio ar gyfer cyd-destun yn hytrach na darluniau cyffredinol/llyfrgell. Gellir gweld lliwiau nodau Llesiant Cymru isod. Mae'r tudalennau yn y canllawiau wedi'u creu fel 'tabiau' i gynorthwyo gyda'u darllen ar-lein.

Melyn: #F6E940

Oren: #DD9023

Coch ysgafn: #C6342E

Coch tywyll: #9F1D2E

Glas tywyll: #30347F

Glas canolig: #4470B5

Glas ysgafn: #6AA7DB



Argymhellir bod y timau'n defnyddio'r dyluniad SIFT ar ddeunyddiau i feithrin cysylltiad â'r dull SIFT o fewn eu sefydliadau.

Cyflwyniad

Nodau Datblygu
Cynaliadwy Byd-eang

Nodau Llesiant Cymru

'Byddwch y Newid' ar gyfer
nodau Llesiant CymruAdnoddau 'Byddwch
y Newid'

Her Nodau Llesiant Cymru

Gwelliannau Cynaliadwy
ar gyfer Timau (SIFT)

Y gynulleidfa darged

Negeseuon allweddol

Gwybodaeth am ddylunio
a defnyddio adnoddau**Strwythur e-ganllaw**

Camau Cynaliadwy

Cynlluniau i'r dyfodol

Rhagor o wybodaeth

Strwythur e-ganllaw

Mae'r tudalennau/tabiau mewn e-ganllaw yn cyflwyno'r cynnwys hwn:

- Tudalen flaen
- Cyflwyniad
- Cyfraniad tuag at nodau Llesiant Cymru
- Camau cynaliadwy
- Y dystiolaeth / polisi / deddfwriaeth
- Astudiaethau achos o staff sy'n 'Gweithredwyr'
- A ydych am ddysgu mwy?
- Ymunwch yn y sgwrs



Cyflwyniad

Nodau Datblygu
Cynaliadwy Byd-eang

Nodau Llesiant Cymru

'Byddwch y Newid' ar gyfer
nodau Llesiant CymruAdnoddau 'Byddwch
y Newid'

Her Nodau Llesiant Cymru

Gwelliannau Cynaliadwy
ar gyfer Timau (SIFT)

Y gynulleidfa darged

Negeseuon allweddol

Gwybodaeth am ddylunio
a defnyddio adnoddau

Strwythur e-ganllaw

Camau Cynaliadwy

Cynlluniau i'r dyfodol

Rhagor o wybodaeth

Camau Cynaliadwy



Dyma ddetholiad bach o gamau cynaliadwy o'r e-ganllawiau:

'*Cerddwn ymlaen*' – teithio llesol a chynaliadwy

- Rhowch gynnig ar ddyddiau '*gadael y car gartref*', trefnwch i rannu ceir gyda chydweithwyr, a pharciwch ymhellach o'r swyddfa ('*parcio a cherdded*')

'*Mesurau i leihau ein gwastraff*' – lleihau'r defnydd o ynni a gwastraff

- Defnyddiwch y grisiau yn hytrach na'r lift; llosgwch galoriau yn hytrach na thrydan

'*Creu gweithleoedd cynhwysol*' – cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant

- Cymerwch rôl weithredol mewn fforwm mewnol ynghylch cydraddoldeb neu byddwch yn 'Hyrwyddwr Cydraddoldeb'.

'*Cynaliadwyedd ar yr agenda*' – cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau cynaliadwy

- Cofiwch am leoliadau mewn cymunedau lleol, a rhoddwch flaenoriaeth i leoliadau y gellir eu cyrraedd gan ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy (cerdded/beicio/trafnidiaeth gyhoeddus)

'*Treftadaeth iach*' - rhoi bywiogrwydd i lesiant ac iechyd drwy'r celfyddydau, diwylliant a'r iaith Gymraeg

- Manteisiwch ar fannau diwylliannol yn yr awyr agored, gan gynnwys parciau a llwybrau, wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol.

Cyflwyniad

Nodau Datblygu
Cynaliadwy Byd-eang

Nodau Llesiant Cymru

'Byddwch y Newid' ar gyfer
nodau Llesiant CymruAdnoddau 'Byddwch
y Newid'

Her Nodau Llesiant Cymru

Gwelliannau Cynaliadwy
ar gyfer Timau (SIFT)

Y gynulleidfa darged

Negeseuon allweddol

Gwybodaeth am ddylunio
a defnyddio adnoddau

Strwythur e-ganllaw

Camau Cynaliadwy

Cynlluniau i'r dyfodol

Rhagor o wybodaeth

Cynlluniau i'r dyfodol

O gofio ehangder nodau Llesiant Cymru a'r nodau byd-eang, mae gan 'Byddwch y Newid' y potensial i hyrwyddo camau cynaliadwy ar amrywiaeth eang o themâu. Mae'r Hyb lechyd a Chynaliadwyedd yn trefnu e-ganllawiau eraill ar:

- *'Prosesau caffael nad ydynt yn dinistrio'r Ddaear'* - camau cynaliadwy ar gyfer swyddogion caffael
- *'Canfod lle ar gyfer natur'* – i gefnogi staff i gyfrannu at ddarparu Cynllun Bioamrywiaeth lechyd Cyhoeddus Cymru
- *'Sefydliad sy'n Noddfa'* – i amlygu i'r staff y rhan y gallant eu chwarae
- *'Dinesydd Byd-eang'* – i hyrwyddo'r rôl y gallai staff ei chwarae

Mae Heriau Nodau Llesiant eraill wedi'u cynllunio hefyd, oherwydd bu'r rhain yn boblogaidd gyda thimau ledled Cymru, gan gynnwys 'Ffasiwn Cyflym – Datrysiadau a Methiannau' a fydd yn anelu at godi ymwybyddiaeth o'r llygredd sy'n cael ei achosi gan y galw mawr am ddillad newydd.



Cyflwyniad

Nodau Datblygu
Cynaliadwy Byd-eang

Nodau Llesiant Cymru

'Byddwch y Newid' ar gyfer
nodau Llesiant CymruAdnoddau 'Byddwch
y Newid'

Her Nodau Llesiant Cymru

Gwelliannau Cynaliadwy
ar gyfer Timau (SIFT)

Y gynulleidfa darged

Negeseuon allweddol

Gwybodaeth am ddylunio
a defnyddio adnoddau

Strwythur e-ganllaw

Camau Cynaliadwy

Cynlluniau i'r dyfodol

Rhagor o wybodaeth

Rhagor o wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch adnoddau newydd 'Byddwch y Newid' y byddai cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach yn eu cael yn ddefnyddiol, anfonwch e-bost at yr Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd: publichealth.sustainability@wales.nhs.uk

